Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **27 Chwefror 2018** |
| **Amser:** | **08:30 – 10:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (CY)<br>Yr Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 30/01/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2242** | **GB i anfon manylion at y PS am y Fforwm Troseddau Gwledig sydd ar fin cael ei gynnal.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2243** | **Rhoi adroddiad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu mewn perthynas â chynlluniau'r PG ar gyfer safle Pen-bre i'r CHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2244** | **MH i drefnu taith o'r Ardal Heddlu ar gyfer y CHTh ym mis Mai.** | **Yn parhau** |
| **PB 2245** | **Y PS i drafod y mater o rannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau a gomisiynwyd gyda Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol .** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2246** | **Y PS i drafod y mater o geisio caniatâd dioddefwyr i rannu eu gwybodaeth gydag asiantaethau partner gyda'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2247** | **Y CC i ddrafftio llythyr i Vaughan Gething AC ac Alun Davies AC mewn perthynas â'r amser y mae'n rhaid i ddioddefwyr cam-drin rhywiol aros am wasanaeth cwnsela.** | **Yn parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2248** | **Y PS i ymgysylltu â'r DBG Parmenter mewn perthynas â monitro Bodlonrwydd Dioddefwyr.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2249** | **Cynrychiolwyr o'r adran TGCh i roi diweddariadau i'r CHTh mewn perthynas â'r system MAVIS.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 30/01/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 60** | **Mae'r PG a'r CHTh yn cytuno i'r safle 18 cell argymelledig ar gyfer dalfa newydd Sir Gaerfyrddin.** | **CY** |
| **PB T2 61** | **Gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer prosiect Dafen, Llanelli, ar y cyfraddau adeiladu y cytunwyd arnynt yn flaenorol, tra byddai'r cyfraddau yn ôl awr yn newid er mwyn cyfateb â chyfraddau heddiw.** | **CY** |
| **PB T2 62** | **Penderfynodd y PG a'r CHTh beidio â derbyn cynnig Cyngor Tref San Clêr, sef cynnig i brynu adeilad yn Sanclêr i'w droi'n Amgueddfa Heddlu.** | **CY** |
| **PB T2 63** | **Mae'r PG a'r CHTh yn cymeradwyo'r Adroddiad ar gyfer gwobrwyo'r gwasanaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Cam-drin Domestig.** | **PSA** |
| **PB T2 64** | **Mae'r PG a'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo Tendr Gwasanaeth Meddygol Fforensig i CRG, Asiantaeth Recriwtio Gofal Iechyd Arbenigol.** | **PSA** |
| **PB T2 65** | **Mae'r CHTh a'r PG yn hapus i gefnogi'r Symudiad Egwyddorion a gyflwynwyd gan y Prif Uwch Arolygydd Dros Dro Yelland.** | **Y Prif Arolygydd Dros Dro Yelland** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 30 Ionawr a materion yn codi**

Cadarnhawyd bod y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2018.

PB 2242 – Roedd y Fforwm Troseddau Gwledig wedi'i gynnal a chadarnhawyd y byddai'r dyddiad ar gyfer y cyfarfodydd sirol ar Droseddau Gwledig yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Cam Gweithredu: GB i roi'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfod Troseddau Gwledig i'r PS er mwyn rhoi gwybod i'r Panel Heddlu a Throseddu amdanynt.**

**Cam Gweithredu: GB i roi'r amserlenni i'r PG gan Emma Northcote, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, a'r Prif Arolygwyr ar gyfer darparu Cynllun Troseddau Gwledig.**

PB 2243 – Mae'r adroddiad ynglŷn ag adleoli'r Uned Gŵn i Ben-bre wedi'i gwblhau. Nodwyd na fyddai adleoli'n effeithio ar arferion Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.

PB 2244 – Dywedodd y CHTh y byddai'r Swyddog Cymorth Gweithredol yn mapio'r llefydd yr oedd y CHTh wedi ymweld â nhw'n ddiweddar er mwyn penderfynu ar y daith o'r Ardal Heddlu.

PB 2245 a 2246 – Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng Adran Gyfreithiol Heddlu Dyfed-Powys (HDP). Ystyriwyd bod y pryderon ynghylch rhannu data a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona'n rhai hanesyddol yn bennaf, sy'n ymwneud â chyn aelodau staff. Gwahoddwyd aelodau o dîm gwasanaethau cyfreithiol a chydymffurfio Heddlu Dyfed-Powys i ymuno â'r Bwrdd Comisiynu, a bydd dysgu o'r materion rhannu data'n cael eu trafod.

PB 2247 – Nid oedd llythyr at Vaughan Gething AC wedi'i gyflwyno i'r CHTh. Penderfynwyd y byddai'r PG yn codi'r mater mewn cyfarfod gyda Mr. Gething ar 5 Mawrth.

**Cam Gweithredu: GB i sicrhau bod amserau aros am gwnsela ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol ar agenda cyfarfod y PG ym mis Mawrth gyda Vaughan Gething AC.**

PB 2248 – Bu trafodaeth mewn perthynas â'r ffordd ymlaen ar gyfer dioddefwyr rhwng y PS a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol, a daethpwyd i gytundeb mewn perthynas â gwaith sydd i'w wneud er mwyn asesu Bodlonrwydd Dioddefwyr.

**Cam Gweithredu: Bodlonrwydd Dioddefwyr i fod yn ffocws ar gyfer y Bwrdd Plismona ym mis Ebrill.**

PB 2249 – Cyflwynwyd diweddariad mewn perthynas â'r system MAVIS i'r CHTh.

Cydnabu'r Bwrdd ddogfennau gan y Bwrdd Cynllunio Ardal i'r PG a'r CHTh arwyddo. Byddai cyfarfod er mwyn penderfynu ar ganlyniad Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, sy'n wasanaeth a gomisiynir, ar 27 Chwefror. Nodwyd bod y dogfennau wedi'u darllen a'u cymeradwyo gan Adran Gyfreithiol HDP.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

Diweddariad Gweithredol

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch amryw o faterion gweithredol, gan gynnwys cysylltiad heddlu anuniongyrchol mewn digwyddiad yn nhafarn y Spread Eagle, Caerfyrddin, ond nid yn gyfyngedig i hynny. Nodwyd bod y digwyddiad wedi cael ei hunangyfeirio at Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfeirio sicrhau ansawdd camerâu fideo a wisgir ar y corff at Banel Sicrhau Ansawdd HDP.

**Penderfyniad: Y CHTh i dderbyn y canllawiau a roddir i swyddogion mewn perthynas â phryd y dylid troi camerâu fideo a wisgir ar y corff ymlaen.**

Cyfeiriodd y PG at nifer o ladradau ar draws yr ardal heddlu, gan gynnwys digwyddiad mewn gorsaf betrol yn y Drenewydd. Nodwyd bod 6 swyddog wedi dioddef ymosodiadau ers 30 Ionawr drwy gicio, pwno a phoeri. Nodwyd bod Grŵp Prif Swyddogion HDP wedi awdurdodi polisi cyflau poeri fel rhan ffurfiol o hyfforddiant swyddogion, a bod fideo wedi'i gynhyrchu ar y pwnc.

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch rhagweithgarwch ledled yr Ardal Heddlu, gan gynnwys gweithgarwch trawsffin da ym Mhowys, ymchwiliad Beic Cwad sy'n parhau yn ardal Abertawe, a Diwrnod o Weithredu yn Aberdaugleddau a arweiniodd at sawl arést a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau.

Cydnabu'r PG Ymgyrch Sandfly, lle cafodd mam a mab eu heuogfarnu o lofruddio mam-gu'r mab 6 mlynedd yn ôl.

Sefydliadol

Dywedodd y PG bod trosglwyddedigion yn tyngu llw ar 2 Mawrth, a soniodd am ei ymweliad â gorsafoedd Sir Benfro ar 1 Chwefror a gorsafoedd Powys bythefnos cyn hynny. Nodwydd y byddai Cynhadledd Iechyd Meddwl ar y cyd rhwng HDP a SCHTh yn cael ei gynnal ar 1 Mawrth, ac y byddai'r seremoni cwblhau hyfforddiant yn digwydd ar 8 Mawrth. Dywedodd y PG y byddai'n cynnal cyfarfodydd un i un gyda Phrif Uwch-arolygwyr yn ystod yr wythnos er mwyn asesu sawl un sy'n ymddeol o'r Heddlu.

**Cam Gweithredu: MH i drefnu cyfarfod Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad rhwng y PG a'r CHTh.**

Soniodd y PG a'r CHTh am swyddog HDP a fu farw yn gynharach y mis.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Lleol

Dywedodd y CHTh bod Prif Swyddog Ariannol newydd wedi dechrau gweithio yn SCHTh; cyfeiriodd y CHTh at bryderon y Panel Heddlu a Throseddu ynglŷn â'r berthynas rhwng y PSA a'r Dirprwy Brif Gwnstabl, a nododd fod amddiffyniadau mewn grym yn ystod y broses benodi. Diolchodd y CHTh i aelodau HDP, sydd wedi cefnogi SCHTh â sawl

cyfweliad staff dros yr wythnosau diwethaf. Diolchodd y CHTh i’r PS am ei gwaith yn ystod y broses benodi hefyd. Nododd y CHTh bod y swyddfa’n dawel ar hyn o bryd, ond roedd swyddi gwag yn cael eu llenwi.

Cydnabu’r CHTh Ddigwyddiad Ymgysylltu yn Aberystwyth ar 8 Mawrth a fydd yn cyd-daro â digwyddiadau Diwrnod y Menywod sydd hefyd wedi’u trefnu yn Aberystwyth. Cymeradwyodd y CHTh gais am i SCHTh gefnogi’r digwyddiad.

Dywedodd y CHTh y byddai’n llywyddu’r Gynhadledd Iechyd Meddwl ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys ar 1 Mawrth.

**5. Pwnc Misol: Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

Codwyd cwestiynau ar y pwnc cydymffurfiaeth gwybodaeth a chytunwyd y byddai’r mater yn cael ei ddwyn yn ôl i’r Bwrdd Plismona ymhen pythefnos.

**6. Materion i’w Hystyried**

a) Mynd yn ôl at gam gweithredu 2225, sef ailymweld â chyflwyniad Price Waterhouse Cooper mewn cyfarfod o’r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2018.

Dywedodd y CHTh bod gan HDP dîm Gwella Parhaus mewn grym, gyda’r DBG cyfredol yn arwain ar ddarn o waith ar hyn o bryd. Teimlwyd nad oedd angen cyflenwr allanol ar yr Heddlu ar hyn o bryd.

b) Ystyriaethau sy’n Pennu Cyfanswm Capasiti Celloedd

Roedd y Cyfarwyddwr Ystadau’n bresennol yn y cyfarfod er mwyn arwain y drafodaeth ar gapasiti celloedd yn nalfa Dafen, Llanelli. Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd pennu’r angen ar gyfer nifer y celloedd gofynnol yn safle Penprys. Trafodwyd sawl ffactor, gan gynnwys yr agwedd ariannol, pwysigrwydd peidio a bod o dan capasiti neu drosto, gan ystyried y ffaith bod carcharorion wedi’u symud i ddalfa Rhydaman yn y gorffennol oherwydd cyflwr gwael dalfa presennol Llanelli. Nododd y CY y byddai angen adain ar wahân i ddal carcharorion ifainc a fyddai’n annibynnol o’r adenydd eraill.

Dywedodd y CY mai’r argymhelliad yw adeiladu 14 cell prif ffrwd a 4 cell ar gyfer pobl ifainc yn seiliedig ar nifer y carcharorion diweddar. Cytunodd y PG â hyn gan ddweud y byddai dalfa Rhydaman yn cynnig capasiti ychwanegol ar gyfer amserau brig neu newid mewn deddfwriaeth. Nodwyd bod y Bwrdd Prosiect Ystadau wedi cymeradwyo’r penderfyniad, ac mae’r CY a’r PSA yn argymell 18 cell wrth fynd ymlaen.

Dywedodd y CY y byddai pensaer yr adeilad yn parhau â’r cytundeb pensaernïol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Byddai cyfraddau adeiladu’n parhau ar yr un gyfradd y cytunwyd arni sawl blwyddyn yn ôl tra byddai cyfraddau fesul awr yn cynyddu er mwyn cyfateb â chyfraddau heddiw. Nodwyd bod adran gaffael HDP wedi cytuno i wobrwyo’r cytundeb ar gyfer y tair blynedd nesaf o fewn y fframwaith cyfredol.

**Penderfyniad: Mae'r PG a'r CHTh yn cytuno i'r safle 18 cell argymelledig ar gyfer dalfa newydd Dafen, Llanelli.**

**Penderfyniad: Gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer prosiect Dafen, Llanelli, ar y cyfraddau adeiladu y cytunwyd arnynt yn flaenorol, tra byddai'r cyfraddau yn ôl awr yn newid er mwyn cyfateb â chyfraddau heddiw.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â safle Parc y Brodyr, sef hen safle Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys. Dywedodd y CY bod prynwr y safle wedi cychwyn ar y gwaith arolygu.

Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â gosod polion baner newydd ym Mhencadlys yr Heddlu. Penderfynwyd y byddai cais cynllunio'n cael ei wneud ar gyfer gosod dau bolyn baner wrth fynedfa Pencadlys yr Heddlu, un polyn baner o flaen y Ganolfan Gydlynu Strategol, a gardd goffa wrth y fynedfa i'r Ganolfan Gydlynu Strategol. Gofynnodd y CHTh am i Faner Dewi Sant gael ei chwifio ar 1 Mawrth, sef Dydd Gŵyl Dewi. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r faner LHDT dal yn cael ei chwifio drwy gydol mis Chwefror er waethaf cwynion gan aelodau'r cyhoedd yng Ngheredigion.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer dau bolyn baner wrth y fynedfa i Bencadlys yr Heddlu, un o flaen y Ganolfan Gydlynu Strategol, a gardd goffa wrth y fynedfa i'r Ganolfan Gydlynu Strategol.**

c) Amgueddfa Heddlu

Roedd y Cyfarwyddwr Ystadau (CY) yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod cynnig gan Gyngor Tref Sanclêr i HDP brynu hen adeilad a fu unwaith yn eiddo i HDP a'i droi'n Amgueddfa Heddlu. Oherwydd pwysau ariannol diweddar penderfynwyd i wrthod y cynnig.

**Penderfyniad: Penderfynodd y PG a'r CHTh beidio â derbyn cynnig Cyngor Tref San Clêr, sef cynnig i brynu adeilad yn Sanclêr i'w droi'n Amgueddfa Heddlu.**

**Cam Gweithredu: Nodi dau gyfarfod ystadau strategol yn y dyddiadur ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.**

ch) Adroddiad ar Wobrwyo Gwasanaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Cam-drin Domestig

Mewn perthynas â'r cytundeb Ymgynghorydd Annibynnol Cam-drin Domestig, rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth briodol i'r mater, ac maen nhw'n hapus i wobrwyo'r cytundeb fel yr amlinellir yn y gwaith papur ategol yn amodol ar adolygiad y PSA.

**Penderfyniad: Mae'r PG a'r CHTh yn cymeradwyo'r Adroddiad ar gyfer gwobrwyo'r gwasanaeth Ymgynghorwyr Annibynnol Cam-drin Domestig.**

d) Tendr Gwasanaethau Meddygol Fforensig

Nodwyd bod Heddlu a SCHTh Gogledd Cymru'n tynnu allan o'r Tendr Gwasanaeth Meddygol Fforensig er mwyn gwobrwyo'r cytundeb i CRG, sef Asiantaeth Recriwtio Gofal Iechyd Arbenigol yn Salford. Nodwyd bod y Grŵp Prif Swyddogion yn cefnogi gwobrwyo'r Tendr.

**Penderfyniad: Mae'r PG a'r CHTh yn cymeradwyo gwobrwyo Tendr Gwasanaeth Meddygol Fforensig i CRG, Asiantaeth Recriwtio Gofal Iechyd Arbenigol.**

**7) Unrhyw Fusnes Arall**

a) Symudiad egwyddorion

Rhoddodd Paul Lewis o'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio a'r Prif Arolygydd Dros Dro Richard Yelland gyflwyniad ar Gytundeb i greu egwyddorion ar gyfer cydweithio er mwyn datrys problemau cymhleth. Awgrymodd y Prif Arolygydd Dros Dro y dylid rhoi cynnig ar ymagwedd iechyd cyhoeddus gan ymgynghori ynghylch pob problem ar sail unigol.

Awgrymodd y Prif Arolygydd Dros Dro y dylid selio'r gwaith ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol – darn cryf o ddeddfwriaeth sy'n gorfodi partneriaid i weithio gyda HDP. Byddai hyn yn cael ei lywodraethu gan Grŵp Cydweithio Strategol.

Trafododd y Bwrdd yr adnoddau a'r amser a fyddai angen ymrwymo i'r prosiect, yn arbennig y maes y byddai'r Prif Arolygydd Dros Dro Yelland eisiau datblygu yn yr Heddlu. Penderfynwyd bod y Prosiect Profiadau Plentyndod Andwyol yn enghraifft dda i'w dilyn.

**Penderfyniad: Mae'r CHTh a'r PG yn hapus i gefnogi'r Symudiad Egwyddorion a gyflwynwyd gan y Prif Arolygydd Dros Dro Yelland.**

**Cam Gweithredu: Y Prif Arolygydd Dros Dro Yelland i roi gwybodaeth i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu am y Symudiad Egwyddorion ar 1 Mai.**

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/02/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2250** | **GB i roi'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfod Troseddau Gwledig i'r PS er mwyn rhoi gwybod i'r Panel Heddlu a Throseddu amdanynt.** | **GB** |
| **PB 2251** | **GB i roi'r amserlenni i'r PG gan Emma Northcote, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, a'r Prif Arolygwyr ar gyfer darparu Cynllun Troseddau Gwledig.** | **GB** |
| **PB 2252** | **GB i sicrhau bod amserau aros am gwnsela ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol ar agenda cyfarfod y PG ym mis Mawrth gyda Vaughan Gething AC.** | **GB** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2253** | **Bodlonrwydd Dioddefwyr i fod yn ffocws ar gyfer y Bwrdd Plismona ym mis Ebrill.** | **MH** |
| **PB 2254** | **Y CHTh i dderbyn y canllawiau a roddir i swyddogion mewn perthynas â phryd y dylid troi camerâu fideo a wisgir ar y corff ymlaen.** | **GB** |
| **PB 2255** | **MH i drefnu cyfarfod Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad rhwng y PG a'r CHTh.** | **MH** |
| **PB 2256** | **Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer dau bolyn baner wrth y fynedfa i Bencadlys yr Heddlu, un o flaen y Ganolfan Gydlynu Strategol, a gardd goffa wrth y fynedfa i'r Ganolfan Gydlynu Strategol.** | **CY** |
| **PB 2257** | **Nodi dau gyfarfod ystadau strategol yn y dyddiadur ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.** | **CY** |
| **PB 2258** | **Y Prif Arolygydd Dros Dro Yelland i roi gwybodaeth i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu am y Symudiad Egwyddorion ar 1 Mai.** | **GB** |